# Gwasanaethau Sy'n Addas i'r Dyfodol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government





Ymgynghoriad pobl ifanc

Mae gan Gymru lawer o wasanaethau iechyd a gofal da. Maen nhw’n gofalu am bobl pan mae angen hynny arnyn nhw, ac yn helpu pobl i gadw’n iach.

Mae llawer o bobl yn darparu gofal, fel:

- meddygon
- nyrsys
- deintyddion
- gweithwyr a rheolwyr gofal
- therapyddion a llawer mwy.

Maen nhw’n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob gwasanaeth iechyd a gofal fod cystal â phosib.

Yn 2015, fe wnaethon ni ofyn i bobl yng Nghymru sut y gallen ni wella gwasanaethau iechyd a gofal. Fe wnaeth llawer o bobl gymryd rhan. Ar ôl gwrando ar eu hatebion, fe wnaethon ni edrych ar lle y gallwn ni wneud rhai newidiadau.

Mae’r llyfryn yma’n dweud wrthych chi am yr hyn rydyn ni eisiau ei wneud. Fe fydd angen inni newid rhai cyfreithiau i wneud i hyn ddigwydd.

**Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n ei feddwl fel nad ydyn ni’n gadael unrhyw beth pwysig allan.**







## Pam?

- Mae rhai systemau iechyd a gofal heb newid rhyw lawer mewn 20 mlynedd, ond mae Cymru wedi newid cryn dipyn.
- Mae pobl yn byw yn hirach.
- Mae yna brosiectau positif sy’n helpu pobl i fyw bywydau iach. Ond, mae gan rai pobl broblemau iechyd oherwydd smygu, diet afiach, neu bethau eraill.
- Mae angen mwy o wasanaethau a chymorth ar bobl, felly mae’n rhaid inni ddefnyddio’r hyn sydd gennon ni yn y ffordd iawn.
- Mae angen inni gynllunio gyda’n gilydd ar gyfer y dyfodol.

**Mae arnon ni angen arweinwyr da a gwasanaethau o ansawdd da.**



# 1 Newidiadau fel bod gennon ni arweinyddiaeth well

Rydyn ni eisiau i bob sefydliad iechyd a gofal, gan gynnwys **Byrddau Iechyd Lleol** ac **Ymddiriedolaethau GIG**, fod ag arweinyddiaeth gref.

### Byrddau Iechyd Lleol

Grŵp o bobl sy'n cynllunio a chyflenwi gwasanaethau iechyd yn eu hardal, fel:

- meddygfeydd
- gwasanaethau ysbyty
- gwasanaethau iechyd meddwl
- a mwy.

### Ymddiriedolaethau GIG

Mae gan Gymru 3 Ymddiriedolaeth GIG.

- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre – gwasanaethau sy'n arbenigo mewn gofal canser
- Iechyd Cyhoeddus Cymru – yn gweithio i wella iechyd a llesiant i bawb.








## Pob Gwasanaeth Iechyd a Gofal

Rydyn ni eisiau i'r grŵp o bobl sy'n arwain gwasanaethau iechyd a gofal weithio'n unol â'r un set o egwyddorion (cod ymddygiad)

**Rydyn ni eisiau:**

→ iddyn nhw fod yn agored ac yn glir gyda phawb

→ iddyn nhw ddangos sut maen nhw'n gwella gwasanaethau

→ iddyn nhw gydweithio ag eraill.

**? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw



## Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG

Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol a byrddau Ymddiriedolaethau bobl o wahanol gefndiroedd arnyn nhw.

Mae rhai ohonyn nhw'n gweithio yn y GIG, ond mae yna rai eraill sydd ddim yn gweithio ynddo. Mae hyn yn helpu cymunedau i ddweud eu dweud am sut mae gwasanaethau'n cael eu rhedeg.

**Rydyn ni eisiau:**

- i bob cadeirydd (arweinydd y bwrdd) gael is-gadeirydd i'w gefnogi
- i bob bwrdd fod â'r cymysgedd iawn o bobl a dangos arweinyddiaeth gref
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru allu camu i mewn ac ychwanegu aelod at y bwrdd os oes yna broblem.

**Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

## Pwy sydd ar y Byrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau

Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol a Byrddau Ymddiriedolaethau wahanol bobl gyda gwahanol rolau swyddi.

Rydyn ni eisiau i bethau fod yn hyblyg ond rydyn ni'n meddwl y dylai pob Bwrdd Iechyd Lleol fod â rhai rolau proffesiynol sydd yr un fath.

Mae gan bob Ymddiriedolaeth GIG eu rheolau eu hunain ynglŷn a sut y maen nhw'n cael eu rhedeg.

**Rydyn ni eisiau:**

→ i bob Bwrdd Iechyd Lleol fod â grŵp craidd o rolau proffesiynol

→ bod â rhai eraill sy'n hyblyg ac y mae modd eu newid ar sail angen lleol.

**Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw



## Ysgrifennydd y Bwrdd

Mae gan bob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth Ysgrifennydd y Bwrdd – mae'r person yma'n gwneud yn siŵr bod y Bwrdd yn cael ei redeg yn dda.

**Rydyn ni eisiau:**

→ i'r gyfraith ddiogelu rôl Ysgrifennydd y Bwrdd. Fe fydd hyn yn eu helpu nhw i godi pryderon a herio pethau.

**Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am newidiadau i arweinyddiaeth?


# 2 Newid sut rydyn ni'n gweithio ac yn meddwl

Mae angen i bob gwasanaeth fod yn agored ac yn glir am yr hyn y maen nhw'n ei wneud, a pham.

**Fe ddylai pobl allu cymryd rhan a chael dweud eu dweud ynglŷn â phenderfyniadau.**

Mae angen i wasanaethau iechyd a gofal, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG:

- fod wedi paratoi
- cynllunio'n dda
- gweithio'n fwy ag eraill, fel awdurdodau lleol a sefydliadau eraill
- rhoi gwasanaeth da.







## Gwasanaethau o ansawdd

Mae angen i gyrff sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal wneud yn siŵr eu bod nhw'n rhoi anghenion pobl wrth wraidd pob un o'u cynlluniau.

**Rydyn ni eisiau:**

→ rhoi pŵer iddyn nhw i weithio'n agosach fyth ag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill

→ iddyn nhw orfod edrych ar beth sydd ei angen yn eu hardal wrth wneud cynlluniau

→ iddyn nhw weithio gyda'i gilydd pan mae angen gwasanaeth arbenigol ar rywun.

**? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

## Bod yn onest ac yn agored

Rhaid i bob gwasanaeth iechyd a gofal fod yn onest ynglŷn â'u penderfyniadau, hyd yn oed pan mae hynny'n anodd.

Pan mae pobl yn cwyno, fe ddylen nhw gael atebion clir ac onest.

**Rydyn ni eisiau:**

→ i bob gwasanaeth iechyd a gofal fod â'r un rheolau ynglŷn â bod yn agored ac yn onest

→ i bob gwasanaeth iechyd a gofal fod yn agored ac yn glir gyda phobl.

**? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am sut rydyn ni'n gweithio ac yn meddwl?

# 3 Newidiadau i helpu i roi pobl yn gyntaf

Fe ddylai pawb gael gofal ardderchog. Fe ddylai anghenion pobl ddod yn gyntaf a bod wrth wraidd pob penderfyniad.

Rhaid i bob gwasanaeth iechyd a gofal allu dangos eu bod nhw:

- yn gwneud y peth iawn
- yn y ffordd iawn
- yn y lle iawn
- ar yr amser iawn
- gyda'r staff iawn.

## Safonau gofal

Dyna ichi lawer o wahanol safonau (rheolau).

→ Mae pob un o wasanaethau'r GIG yn dilyn un set

→ Mae gan fudiadau gofal iechyd annibynnol set arall

→ Mae gan wasanaethau Gofal Cymdeithasol set wahanol hefyd.

Mae'n gallu bod yn ddryslyd. Dydy hi ddim bob amser yn glir beth mae pobl yn gallu ei ddisgwyl.

**Rydyn ni eisiau:**

→ un set o safonau allweddol ar gyfer y gwasanaethau i gyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

**? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

## Cwyno

Fe ddylai fod yn hawdd dweud pan dydy rhywbeth ddim yn gweithio.

Fe ddylai problemau gael eu datrys yn gyflym. Ni ddylai pobl orfod cwyno drosodd a throsodd i wahanol wasanaethau.

**Rydyn ni eisiau:**

→ system gwyno glir a hawdd

→ i bob gwasanaeth a sefydliad weithio gyda'i gilydd i ddelio â phroblemau.

**? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am roi pobl yn gyntaf?

# 4 Newidiadau i helpu pobl i gymryd rhan

Fe ddylai pawb allu cymryd rhan a dweud eu dweud am sut y mae gwasanaethau'n cael eu rhedeg ledled Cymru.

Mae cydweithio'n gwella gwasanaethau.









## Cynnwys pobl

Fe ddylai pobl gael dweud eu dweud am wasanaethau ledled Cymru, yn ogystal ag am eu gwasanaethau lleol.

Rydyn ni eisiau dechrau grŵp 'llais y dinesydd' ar draws gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fe fydd y grŵp ar wahân i'r GIG ac awdurdodau lleol ond fe fydd yn gweithio gyda phob un o'r gwasanaethau a'r sefydliadau.

**Rydyn ni eisiau:**

→ sefydlu grŵp 'llais y dinesydd' newydd i help mwy o bobl i ddweud eu dweud.

**? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

## Cydweithio

Fe ddylai rhai penderfyniadau gael eu gwneud yn lleol. Mae'n gallu arbed amser ac arian.

Mae Byrddau Iechyd Lleol a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau'n gwybod llawer am sut maen nhw'n gweithio yn eu hardal nhw. Maen nhw'n gallu ychwanegu gwybodaeth a dealltwriaeth at gynlluniau a phenderfyniadau.

Os oes materion yn codi neu os nad ydy pobl yn gallu cytuno ar benderfyniadau, yna mae Gweinidogion Cymru'n gallu camu i mewn a phenderfynu â chyngor ar beth i'w wneud.

**Rydyn ni eisiau:**

→ ei gwneud hi'n bosib i Fyrddau Iechyd Lleol wneud fwy o benderfyniadau'n lleol

→ cael systemau cyngor a chymorth annibynnol i helpu hyn i ddigwydd

→ ei gwneud hi'n bosib i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau pan mae Byrddau Iechyd Lleol yn methu â gwneud hynny.

**? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

## Arolygu a Rheoleiddio

Dylai gwasanaethau iechyd a gofal fod yn ddiogel a dilyn yr holl reolau.

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)** – yn gwirio'r holl ofal iechyd a gofal y mae sefydliadau'n eu rhoi.

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)** – yn gwirio gwasanaethau mewn gofal cymdeithasol.

Mae'r ddau yn gwneud yn siŵr bod pob gwasanaeth cystal â phosib a'u bod nhw'n dilyn y rheolau iawn.

### Rydyn ni eisiau:

- → i AGIC fod â'r un fframwaith cyfreithiol ag un AGGCC, fel eu bod nhw'n gallu cydweithio'n well
- → gwybod a ddylai AGIC, AGGCC a grŵp 'llais y dinesydd' ddod at ei gilydd i lunio un corff newydd.

**? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am helpu pobl i gymryd rhan?



# Y camau nesaf

## Diolch am ddarllen hwn

Fe fydd eich atebion chi'n ein helpu ni i symud ymlaen.

Mae'r ymgynghoriad llawn i'w weld yma:
ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/gwasanaethau-syn-addas-ir-dyfodol

Anfonwch eich atebion aton ni erbyn 29 Medi 2017.

HQDMailbox@wales.gsi.gov.uk

Neu i:
Yr Is-adran Ansawdd Gofal Iechyd
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

